

ISSUE 5

IONAWR 2021

Mae Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS) yn blanhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau a gyflwynwyd i rannau o'r byd ble na fyddent i'w cael yn naturiol. Gallant ymledu gan achosi difrod i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw. INNS yw'r ail fygythiad mwyaf ar ôl darnio a cholli cynefinoedd. Amcangyfrifwyd bod INNS yn costio o leiaf £1.8 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, maent yn effeithio'n bennaf ar y sectorau ffermio a garddwriaethol ond gallant effeithio hefyd ar drafnidiaeth, adeiladu, hamdden, dyframaethu a chyfleustodau.

Mae Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) yn ffynhonnell arbenigol ar INNS yng Nghymru. Sefydlwyd y grŵp yn 2008 ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol a sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill. Cyfarfu'r Grŵp ddiwethaf ar 7 Hydref 2020.

Dysgwch fwy am y grŵp ar ein gwefan benodedig ar [wefan PBC](#).

PYNCIAU LLOSG

Partneriaeth a Ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn Cynyddu Ymwybyddiaeth o Rywogaethau Estron Goresgynol

Gan Kate Rodgers, Partneriaeth Lefelau Byw/Cyfoeth Naturiol Cymru.


Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r broblem hon

Fel rhan o Bartneriaeth Tirlun Lefel Byw (LLLP) - Prosiect Treftadaeth a Ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, mae canllaw poced rhywogaethau estron goresgynol newydd ar fin cael ei lansio.

Mae'r canllaw yn un o allbynnau allweddol y prosiect 'Amddiffyn y Lefelau rhag Goresgyniad Estron'. Mae hwn yn un o 26 prosiect sy'n rhan o'r cynllun Partneriaeth Lefelau Byw, dan arweiniad yr RSPB, sy'n anelu at sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer Gwastadeddau unigryw Gwent.

Beth yw diben y canllaw?

Mae rhywogaethau estron goresgynol yn gymharol brin ar dirwedd Gwastadeddau Gwent, ond oherwydd ei system ddraenio ryng-gysylltiedig, sy'n bwysig iawn i fywyd gwyllt, mae rhywogaethau estron goresgynol yn cael eu hystyried yn fygythiad sylweddol. Yr allwedd i amddiffyn Gwastadeddau Gwent yw atal INNS rhag sefydlu a, lle bo'n ymarferol, rheoli'r rhai sydd eisoes wedi sefydlu.



Cydnabyddiaeth: Partneriaeth Lefelau Byw

ymhlith y cyhoedd yn isel a phrin yw'r cofnodion. Bydd y canllaw hwn yn helpu unigolion i nodi rhai o'r rhywogaethau estron goresgynol a welir eisoes ar Wastadeddau Gwent a rhai newydd-ddyfodiaid posibl y dylem i gyd fod yn wyliadwrus iawn yn eu cylch.

Mae'r canllaw hefyd yn rhoi rhai argymhellion syml

ynghylch beth i'w wneud a beth i osgoi ei wneud; camau gweithredu a fydd yn helpu i atal INNS rhag mynd ar led.

Dylai 'Canllaw Rhywogaethau Estron Goresgynol Lefelau Gwent' helpu pobl i deimlo'n fwy hyderus i adnabod rhywogaethau estron ac arwain at gofnodi a rheoli INNS yn well ar Wastadeddau Gwent – gan amddiffyn y dirwedd hon.

Bydd ar gael ar ffurf papur oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar-lein yn <https://www.lefelaubyw.co.uk/rhywogaethau-estron-goresgynol>.

RHYWOGAETHAU ESTRON GOESGYNOL MOROL A BIODDIOGELWCH

Cynllunio Bioddiogelwch CNC ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau

Gan Chloe Powell Jennings, Swyddog Prosiect Bioddiogelwch Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r prosiect bioddiogelwch yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid i greu cynllun bioddiogelwch morol ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS). Ariennir y prosiect gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a bydd yn rhedeg tan fis Mehefin 2022.

Mae tri cham i'r prosiect:

- Casglu tystiolaeth i danategu cynlluniau bioddiogelwch ar gyfer ACA PLAS
- Datblygu'r cynllun bioddiogelwch ar gyfer ACA PLAS er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol morol newydd a lleihau lledaeniad INNS morol presennol i'r safle ac i ardaloedd eraill yng Nghymru
- Gweithredu, monitro effeithiolrwydd ac ymgorffori'r cynllun.

Fel rhan o'r cam casglu tystiolaeth, cafodd dau adroddiad tystiolaeth eu paratoi. Mae adroddiad y Gymdeithas Fiolegol Forol yn edrych ar effaith 16 o rywogaethau estron goresgynnol ar nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, pysgodfeydd a dyframaeth ac mae adroddiad ABPmer yn darparu asesiad map gwres llwybrau INNS morol ar gyfer Cymru.

Mae rhan fawr o'r cam hwn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r prosiect wedi bod yn gweithio ar ddulliau amgen o ymgysylltu â rhanddeiliaid gan na fu modd i ni gynnal ein gweithdy cyntaf ym mis Mai. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda swyddog ACA PLAS er mwyn anfon gwybodaeth a holiaduron at amrywiol rhanddeiliaid yn yr ardal. Mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru hefyd wedi'i chontractio i ddosbarthu holiaduron i bysgotwyr yn ACA PLAS ac i gael adborth ar gamau bioddiogelwch posibl. Y gobaith yw y bydd yr holiaduron hyn yn arwain at gyfarfodydd un i un gyda physgotwyr. Mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru hefyd wedi adolygu'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac ers hynny rydym wedi trafod sut y gallwn wella ar y data sydd gennym ar hyn o bryd yn ACA PLAS. Cynhaliwyd gweithdy adnabod rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) ar-lein ar gyfer gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ac mae swyddog y prosiect hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gynnal gweithdy ar-lein pe bai'r adborth i hynny'n fuddiol.



Pentwr o Frennig yr Wystrys America, *Crepidula fornicata* o fae Abertawe
Cydabyddiaeth: Chloe Powell Jennings

addasu eu canllaw adnabod rhywogaethau estron goresgynnol morol er mwyn darparu canllaw sy'n fwy addas i Gymru. Mae'r prosiect hefyd yn gobeithio ychwanegu INNS morol at ap Cofnodi Dalfeydd y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) fel ychwanegiad gwirfoddol er mwyn i bysgotwyr gadw cofnodion.

Cysylltwch â'r swyddog prosiect, Chloe yn chloe.powelljennings@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk am fwy o wybodaeth neu ewch i <http://www.penllynarsarnau.co.uk/projects98f5-2.html?lang=welsh>.



Chwistrell Garped, *Didemnum vexillum*, wedi'i dynnu o gorff cwch yng Nghaerdybi.
Cydabyddiaeth: Cyfoeth Naturiol Cymru



Cimwch America, *Homarus americanus*. Cydabyddiaeth: Hawlfraint y Goron

RHYWOGAETHAU ESTRON GOESGYNOL MOROL A BIODDIOGELWCH

Yr her o olrhain rhywogaethau estron morol

Gan Paul Brazier, Uwch Swyddog Asesu Amgylcheddol Morol, CNC.

Caiff cynefinoedd rhynglanwol eu monitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r arolygon monitro blynyddol, er mwyn darparu data i fodloni gofynion adrodd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Y ffordd orau o fonitro nodweddion arbennig ac amcanion penodol yw cynnal arolygon wedi'u targedu'n fanwl, er mwyn casglu data manwl gywir i gadarnhau cyflwr neu ansawdd y cynefinoedd. Mae cofnodion rhywogaethau estron o fewn cwadratau neu greiddiau yn annhebygol iawn ac maent yn weddol brin oherwydd maint bychan y sampl. Er enghraifft, yn 2010, darganfuwyd y cofnod cyntaf o'r chwyn pompom alga coch *Caulacanthus okamurae* (a ddsbarthwyd yn wreiddiol fel *Feldmannophycus okamurae*) mewn cwadratau yn South Hook Point, Aberdaugleddau. Roedd y cofnodion hyn yn adlewyrchu'r ymlediad cyflymach, llawer ehangach, gyda niferoedd sylweddol yn lleol, ar draws de orllewin Cymru (Sir Benfro, Caerfyrddin a Ceredigion) – ymlediad a oedd wedi cychwyn o leiaf bum mlynedd ynghynt (2005 yw'r cofnod cyntaf).

Datgelir stori debyg gyda darganfod, yn gwbl ar ddamwain, gwymon agar garw alga coch *Agarophyton (Gracilaria) vermiculophylla* mewn nifer o leoliadau yn aber Afon Dwyrdd yn 2017. Ni chofnodwyd y rhywogaeth hon erioed yn y samplau ffurfiol, ond fe'i gwelwyd wrth deithio rhwng gorsafoedd samplu. Datgelodd arolwg yn 2019 bresenoldeb clystyrau trwchus o'r alga yn aber Afon Mawddach ac fe'i cadarnhawyd hefyd yn aber Afon Malltraeth yng ngorllewin Ynys Môn. Mae'n debygol iawn bod yr *Agarophyton* wedi bod yn bresennol yn aberoedd gogledd a chanolbarth Cymru ers nifer o flynyddoedd ynghynt, ac mae'n debyg bod ei ddsbarthiad gryn dipyn yn fwy na'r hyn a gofnodwyd hyd yma.

Nid oes unrhyw ddull ffurfiol o chwilio am a chofnodi rhywogaethau estron sydd wedi'u gwasgaru'n eang (er yn y ddau achos hyn, niferus iawn yn lleol ac yn effeithio ar y gymuned fiolegol), heblaw cofnodion ad-hoc a wneir gan ddefnyddio Apiau ar-lein neu'r Canolfannau Cofnodi Lleol. Mae prosiectau Gwyddoniaeth Dinasyddion a chofnodion achlysurol yn dod yn bwysig iawn fel ein llygaid ar lawr gwlad, a hynny ar gyfer rhybudd cynnar ynghylch y goresgynwyr hyn.

Deddfwriaeth ac Ymchwil

Rhywogaethau goresgynol estron (anfrodorol): rheolau yng Nghymru a Lloegr

Mae Rheoliad yr UE (1143/2014) ar Rywogaethau Goresgynol Estron wedi'i gadw mewn cyfraith ddomestig a bydd yr un rheolau'n parhau i fod yn berthnasol ar ôl inni ymadael â'r UE. Mae canllawiau ar y 66 rhywogaeth restredig ar gael ar wefan GOV.UK.

Anifeiliaid: <https://www.gov.uk/guidance/invasive-non-native-alien-animal-species-rules-in-england-and-wales>

Planhigion: <https://www.gov.uk/guidance/invasive-non-native-alien-plant-species-rules-in-england-and-wales>

Arolwg Rhododendron ponticum

Fe'ch gwahoddir i fod yn rhan o'r astudiaeth hon a grëwyd gan fyfyrwr Bioleg blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Bath Spa.

Nod yr arolwg hwn yw casglu canfyddiad pobl o Rhododendron ponticum ar y dirwedd.

Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol, a bydd eich ymateb yn anhysbys ac na ellir

ei olrhain. Gallwch chi stopio ac allan ar unrhyw adeg waeth beth yw'r rheswm. Os ydych chi'n hapus â hyn, parhewch i [People's perception of Rhododendron ponticum on the landscape \(onlinesurveys.ac.uk\)](https://www.onlinesurveys.ac.uk).

Bydd yr arolwg cyflym hwn yn cymryd oddeutu 3 munud.

DIWEDDARIAD AR BROSIECT RHWYDWAITH ECOLEGOL GWYDN CYMRU (WAREN)

Gan Adrian Lloyd Jones, Rheolwr Tirweddau Byw, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

Mae prosiect WaREN, a ariennir gan gynllun ENRaW Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru, yn ceisio uno Cymru yn ei ddull o fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynol. Oherwydd effaith pandemig y Coronafeirws, diwygiwyd ac estynnwyd cam 1 prosiect WaREN tan ddiwedd Chwefror 2021. Hyd yma, mae'r prosiect wedi rhestru rhywogaethau estron goresgynol â blaenoriaeth, wedi nodi rhanddeiliaid allweddol, wedi cyfweld a mapio Grwpiau Gweithredu Lleol (LAG) ledled Cymru ac wedi cynhyrchu adroddiad cwmpasu ar yr hyn fydd ei angen yn y dyfodol. Bydd hefyd yn cynnal gweithdai gyda chyrrff cyllido i helpu i sicrhau bod grantiau ar gyfer prosiectau rhywogaethau estron goresgynol ar gael yn ddidrafferth yn y dyfodol. Mae'r prosiect hefyd wedi sicrhau cyllid Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer WaREN Cam 2, a fydd yn ehangu ac yn adeiladu ar y rhwydwaith cydweithredol a nodwyd hyd yma trwy weithredu Fframwaith INNS ar draws Cymru. Bydd hefyd yn datblygu ac yn gweithredu offer strategol er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau, cyfathrebu a chydlynu ar gyfer mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynol. Bydd hyn yn cynnwys pecynnau cymorth ar-lein, rhaglenni hyfforddi, meddygfeydd, fforwm rhannu gwybodaeth a manylion am gyfleoedd cyllido. Bydd hefyd yn datblygu strategaeth biddiogelwch ac atal rhywogaethau estron goresgynol ar gyfer Cymru ac yn archwilio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i ddatblygu rheolaeth INNS fel elfen annatod o ganlyniadau rheoli tir cynaliadwy ar gyfer busnesau fferm trwy gynlluniau ffermio cynaliadwy yn y dyfodol. Bydd Cam 2 WaREN yn cychwyn ym mis Ebrill 2021 ac yn para tan Ebrill 2023. Os ydych chi'n ymwneud â gwaith rhywogaethau estron goresgynol ac os nad yw'r prosiect wedi cysylltu â chi hyd yma, cysylltwch â Swyddog y Prosiect, sef Tara Daniels ar T.Daniels@welshwildlife.org.

Diweddariad ar ein Prosiect Lles Afonydd

Mae'r prosiect hwn sy'n cael ei ariannu gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) Llywodraeth Cymru bod yn mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynol yn Nalgylch Afon Dyfrdwy trwy hyfforddi a gweithio gyda gwirfoddolwyr, grwpiau lleol, awdurdodau lleol a chontractwyr, ac mae wedi datblygu cynllun Gwarchodwr Afon Gwirfoddol i helpu i gefnogi camau gweithredu INNS i'r dyfodol. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant biddiogelwch ac wedi treialu technegau arolygu a rheoli newydd. Mae'n cynnig hyfforddiant mewn ystod o sgiliau gan gynnwys ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynol a hyfforddiant biddiogelwch, defnyddio chwynladdwr yn ddiogel, defnyddio offer pŵer ac mae wedi hyfforddi dros 60 o wirfoddolwyr hyd yn hyn. Mae wedi rheoli'n uniongyrchol dros 20km (mewn gwahanol ardaloedd) o Jac y Neidiwr, mae'n mynd i'r afael â chlymog Japan mewn dros 20 o safleoedd ac yn cydlynu camau gweithredu gan wirfoddolwyr ar draws y dalgylch cyfan. Mae dau safle arbrofol wedi'u brechu â ffwng rhwd Jac y Neidiwr ac mae proses samplu eDNA yn cael ei defnyddio i ganfod cimychiaid yr afon brodorol ac estron mewn lleoliadau ar draws Gogledd Cymru. Caiff pum gorsaf brwsio esgidiau biddiogelwch gyda phaneli gwybodaeth eu gosod yn 2021 mewn lleoliadau ymwelwyr allweddol, gyda mwy i'w gosod mewn canolfannau chwaraeon dŵr eleni mewn cydweithrediad â Canoe Wales. Mae'r prosiect hwn yn rhedeg tan Ebrill 2022. Am ragor o wybodaeth cysylltwch, os ag Adrian.Jones@northwaleswildlifetrust.org.uk.

Prosiect Peilot Ecosystem Wydn Gogledd Cymru (NWREPP)

Bydd Prosiect Peilot Ecosystem Wydn Gogledd Cymru, sy'n cael ei ariannu gan gynllun ENRaW Llywodraeth Cymru, yn parhau â gwaith rheoli rhywogaethau estron goresgynol ledled Dalgylch Afon Dyfrdwy ac yn cefnogi camau gweithredu INNS yng Ngogledd Cymru ac ar draws Cymru. Ei nod yw hyrwyddo ymgyrch rhywogaethau estron goresgynol sy'n gweithio ochr yn ochr â Phrosiect WaREN. Bydd hefyd yn hyfforddi 'Byddin Dinasyddion Biddiogelwch' ar gyfer Gogledd Cymru ac yn hyrwyddo rhagnodi gwyrdd a chysylltiadau ag adnoddau naturiol. Ei nod hefyd yw creu menter 'Pysgota er mwyn Gweithredu' i helpu hyrwyddo recriwtio pysgotwyr fel adnodd ar gyfer mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynol. Bydd hefyd yn treialu dull Gwyddoniaeth Dinasyddion er mwyn galluogi sganio'r gorwel yn well ar gyfer INNS dyfrol newydd trwy brosiect eDNA a threialu pori er cadwraeth i frwydro yn erbyn rhywogaethau estron goresgynol o fewn parthau afonol. Am wybodaeth bellach cysylltwch, os gwelwch yn dda gydag Adrian.Jones@northwaleswildlifetrust.org.uk.

PROSIECTAU PARTNERIAID: PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Atal y goresgyniad estron ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Gan Beverley Lewis, Cydlynnydd Rhywogaethau Estron Goresgynol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Er gwaethaf dechrau lletchwith i raglen waith rheoli rhywogaethau estron goresgynol 2020, cafodd y tîm rhywogaethau goresgynol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog dymor llwyddiannus iawn wrth fynd i'r afael â chlymog Japan (*Fallopia Japonica*).

Datgelodd arolygon o Ardal Cadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ACA a SoDdGA) Afon Wysg yn 2018 a 2019 rai achosion cas o glymog Japan yn llechu ar ddwy lan yr afon yn ac oddi amgylch tref sirol Aberhonddu, 71 cofnod o glymog Japan i fod yn fanwl gywir! Roedd bod yn rhannau uchaf dalgylch Afon Wysg yn ardal Aberhonddu yn darged clir ar gyfer ei reoli. Byddai gweithio gydag ethos 'o'r tarddiad i'r tonnau' mewn golwg a rheoli'r plâu hyn yn nalgylch Afon Wysg uchaf yn cyfyngu ar y potensial i ddeunydd planhigion goresgynol gael ei olchi i lawr yr afon a mynd yn bla mewn ardaloedd newydd.

Yn 2020, roeddem yn ddiolchgar o dderbyn grant o gronfa 'Lleoedd ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru. Roedd hyn ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynol, gan helpu i adfer a gwella cynefin dŵr croyw ar ACA a SoDdGA Afon Wysg, er budd bioamrywiaeth a mwynhad pobl o'r afon.

Fe wnaeth y grant ein galluogi i gyflogi contractwr arbenigol i drin clymog Japan â chwynladdwr ar hyd darn 11km o'r afon wedi'i chanoli ar dref Aberhonddu. Cawsom ymateb hynod gadarnhaol gan bob un o'r 25 tîrfeddiannwr ar hyd y darn hwn o'r afon ac nid oedd llawer ohonynt yn ymwybodol o'r problemau y mae clymog Japan yn eu creu neu hyd yn oed bod yna rywogaethau goresgynol yn yr ardal.

Ni pharhaodd tywydd godidog yr haf yr holl ffordd i mewn i dymor rheoli clymog Japan ond er gwaethaf hyn yn ogystal â chyfyngiadau

anrhagweladwy Covid 19, llwyddodd y contractwr i chwistrellu ym mis Medi a mis Hydref 2020 gan drin pob un o'r 71 o safleoedd y clymog gan hyd yn oed ddod ar draws ambell un newydd hefyd!

Ni fu'n bosibl cynnal arolwg dilynol, llawn yn yr hydref oherwydd llifogydd a chyfnodau clo pellach, ond dangosodd y safleoedd hynny yr oedd modd i staff INNS eu cyrraedd ar daith gerdded o'u cartrefi gyfradd marw da o safbwynt y planhigyn.

Bydd tymhorau gwanwyn a haf 2021 yn dangos i ni effeithiolrwydd triniaeth 2020, a'r gobaiht yw y bydd cyfradd ladd uchel yn galluogi triniaethau dilynol i gymryd llawer llai o amser a chostio llai, croesi bysedd! Gobeithiwn ddod o hyd i gyllid pellach ar gyfer y triniaethau dilynol hyn yn 2021 a 2022 ac wedi hynny gellir cynnal rhaglen



Contractwr yn taclo clymog Japan ar lannau Afon Wysg, ger Aberhonddu Medi 2020. Cydnabyddiaeth: David Jermyn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

fonitro lawer llai dwys o bryd i'w gilydd.

Hoffai'r tîm INNS fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r cyllidwr (Lleoedd Lleol ar gyfer Natur), Cyfoeth Naturiol Cymru (am gymorth gyda chaniatâd), y contractwr (Phlorum) ac yn fwyaf arbennig y 25 tîrfeddiannwr a oedd i gyd, yn ddieithriad, yn falch o weithio gyda ni ar y prosiect hwn. Ymlaen i 2021!

Am wybodaeth bellach cysylltwch â: Beverley Lewis ar Beverley.Lewis@beacons-npa.gov.uk, 07854 997 508.



TRAINING & EVENTS

Events

Eleni bydd **Wythnos Rhywogaethau Goresgynol** yn dychwelyd rhwng 24 a 30 Mai 2021. Oherwydd ansicrwydd ynghylch cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol yn y dyfodol, bydd mwy o ffocws yn cael ei roi eleni ar weithgareddau ar-lein. Bydd Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (NNS) Prydain Fawr a sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn cynnal gweminarau, sesiynau hyfforddi rhithwir, arolygon rhywogaethau goresgynol a llawer mwy drwy gydol yr wythnos. Os hoffech chi neu eich sefydliad gymryd rhan, cysylltwch â nss@apha.gov.uk.

Themâu Dyddiol

Dydd Llun – cyflwyniad cyffredinol i rywogaethau estron goresgynol – cysylltiadau â materion amgylcheddol ehangach gan gynnwys newid yn yr hinsawdd.

Dydd Mawrth – amgylchedd dyfrol (dŵr croyw, afonol a morol).

Dydd Mercher – coetiroedd a chefn gwlad.

Dydd Iau – trefol (gan gynnwys gartref, ac anifeiliaid anwes yn dianc).

Dydd Gwener – ynysoedd bychain a phersbectif byd-eang (edrych ar enghreifftiau o effeithiau a gwahaniaethau ar draws gweinyddiaethau Cyngor Prydain-Iwerddon, a Thiriogaethau Tramor y DU).

Dydd Sadwrn a dydd Sul – gwirfoddoli (digwyddiadau/gweithgareddau cydgysylltiedig y gall y cyhoedd gymryd rhan ynddynt gan gynnwys gwirfoddoli, arolygon rhywogaethau goresgynol, sesiynau hyfforddi a gweminarau ac ati, yn dibynnu ar y cyfyngiadau ar y pryd).

Hyfforddiant

Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau diogel yn ystod y cyfnod clo:

<http://www.nonnativespecies.org/news/index.cfm?id=347>

Hyfforddiant ar-lein am ddim:

<http://www.nonnativespecies.org/elearning>

CYSYLLTWCH Â NI



www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Rhywogaethau-Estron-Goresgynol



@WBP_wildlife



walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk



Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, d/o Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP